y dinesydd

Rhagfyr 2001/Ionawr 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 268

# ELDRA: DINESYDD O DRAS ROMANI

Dydd Nadolig, bydd gan S4C anrheg Nadolig go arbennig ar ffurf ffilm hudolus newydd sbon. Ffilm yn rhannol seiliedig ar atgofion plentyndod y diweddar Eldra Jarman, Cyncoed, ym Methesda'r 1930au, yw *Eldra*. Roedd Eldra Jarman yn aelod o deulu Romani ei hun – teulu enwog Abram Wood – ac fe ddaeth yn arbenigwraig ar fywyd y sipsiwn Cymreig.

Yn ôl Angharad Jones, Comisiynydd Drama S4C, "Mae *Eldra* yn ffilm gynnes, naturiol, delynegol – mae'n ffilm ddelfrydol i'r teulu i gyd ei mwynhau ar noson Nadolig o flaen y tân!"

Bethesda yn y 1930au – cartref dros dro i'r sipsi ifanc, Eldra. Mae bywyd y ferch ifanc yn ymddangos fel un siwrnai hir; lle mae hud a lledrith yn chwarae rhan annatod o drefn naturiol bywyd. Ond nid yn unig y mae'n rhaid i Eldra ddysgu am fywyd Romani, mae'n hanfodol iddi hefyd ddeall cyfyngiadau realiti bywyd ei chyfeillion newydd a'r gormes a'r tyndra sy'n bodoli o fewn trefn gymdeithasol ardal y chwareli.

Cyfarwyddwr *Eldra* yw Timothy Lyn a'r cynhyrchydd yw Bethan Eames. Lluniwyd y sgript gan Manon Eames, chwaer Bethan. Meddai Manon, "Nid ffilm am ragfarnau oddi mewn cymdeithas tuag at y Romani yw hon, na chwaith astudiaeth ramantus o'u ffordd o fyw a'u traddodiadau. Mae'n ffilm am yr hyn sy'n digwydd pan mae gwahanol 'fydoedd' yn cyfarfod, yn cyffwrdd ei gilydd, ac weithiau'n gwrthdaro."

"Wrth weithio ar y gyfres *Amser i'w Gofio*, ym 1992", meddai Manon, "bu fy chwaer Bethan yn cyfweld â nifer o ferched yn eu 70au hwyr, yn eu holi am brofiadau eu bywydau, ac yn eu plith yr oedd Mrs Eldra Jarman. Wrth wrando ar hanes ei phlentyndod unigryw, fe welodd Bethan ddeunydd yn syth ar gyfer ffilm neu gyfres ... " Yn sgîl hynny daeth Manon hithau i adnabod Eldra Jarman a bu'r ddwy yn cydweithio'n agos hyd at farwolaeth Eldra. Yr her, meddai Manon, oedd datblygu a phlethu'r holl themâu "cudd" a oedd yn bodoli yn straeon Eldra Jarman am ei phlentyndod, ac ar yr un pryd efelychu "byd" Eldra. "Fy mhrif orchwyl", meddai, "oedd ceisio trawsblannu fy hunan – a'm dychymyg – i'w byd hi, er mwyn ei ddatblygu yn greadigol."



Mae ffrwyth y broses i'w weld a'i fwynhau yn y ffilm, a gafodd ei saethu ym mis Medi eleni yn Nyffryn Ogwen, Dolgellau a Chastell Penrhyn, ger Bangor. Chwaraeir rhan Eldra gan ferch ysgol 14 oed o Lanllechid, ger Bethesda, Iona Jones, ac mae nifer o actorion amlwg ymhlith y cast, gan gynnwys Rhys Richards, Leisa Mererid, John Ogwen, Maureen Rhys a David Lyn.



Un o nodweddion arbennig y ffilm yw'r gerddoriaeth swynol a heintus a gyfansoddwyd yn arbennig gan y cerddor a'r telynor dawnus, Robin Huw Bowen. Cyfarfu yntau ag Eldra Jarman, a chael cyfle unigryw i ddysgu ganddi alawon dawnsio "fel yr oedd y sipsiwn yn eu chwarae." Yn ystod y ffilm clywir nifer o'r alawon a ddysgodd gan Eldra ei hun, ac mae Robin hefyd wedi mynd ati i gyfansoddi darnau newydd o gerddoriaeth. "Rwy'n gobeithio fy mod wedi llwyddo i adlewyrchu'r elfen swynol, ddwyreiniol sy'n perthyn i gerddoriaeth y Romani," meddai Robin. "Rydw i wedi mynd ati i gyfuno cerddoriaeth ffidil y Romani a cherddoriaeth ar gyfer y delyn deires a gyfansoddais yn y dull traddodiadol."

Yn anffodus, bu farw Eldra Jarman y llynedd, yn 83 oed. Ni chafodd fyw i weld y ffilm ond roedd ei merched, Nia a Teleri, ynghyd â'u teuluoedd, yn bresennol yn nangosiad cyntaf *Eldra* yng nghanolfan Chapter, nos Fawrth, 27 Tachwedd, fel rhan o 13eg Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru.

Ffilm i'r teulu cyfan yw *Eldra*, a chawn ni i gyd gyfle i'w gweld a'i mwynhau ar S4C ddydd Nadolig.

**LLONGYFARCHIADAU I GYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD AR DDATHLU EI BEN-BLWYDD YN 50!**

Bydd adroddiad llawn ar anerchiad pwysig yr Arglwydd Gwilym Prys Davies yng nghyfarfod blynyddol y cylch ym mis Tachwedd yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd*.

# Y Dinesydd

**Rhagfyr/Ionawr, Rhif 268. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Alun a Mair Treharne

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Cen Williams

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror 2002 erbyn 21 Ionawr at:**
Cen Williams, 27 Llantrisant Drive, Llandaf, Caerdydd CF5 2PG
(Ffon: 2057 5439; e-bost: enquiries@pioneerprinting.co.uk)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: MennaGwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 28** **Rhag. 01/Ionawr 2002**



**Ar Draws**

1. 'Ganol ___ noethlwm,
   Cwynai'r rhewynt oer' (cyf. S.B.J.) (5)
4. Crafu diddiwedd a bôn yr ystanc a phawen (7)
7. Rhywbeth gwahanol o chwith mewn Saesneg manwl (5)
8. Cffio coed mewn cornel uchel (7)
10. 'Tua'r preseb awn
    Gyda chalon lawn
    ___ _____ wnawn' (W.I.) (1, 8)
11. O dan dim tawel ceir rhywbeth peraroglus (4)
12. Samuel bach yn derbyn 50 cân (4)
17. A ddaw pysg o rwyd rhain? (9)
19. Yn dechrau fel y twpsyn, yn gorffen fel ffŵl (7)
20. Ci Dan yn troi a ffoi (5)
21. Bonheddwr (bron) a'r dydd heb ddechrau yn cael gobaith am gusan Nadolig! (7)
22. 'Mewn teyrnas uwch daear, fel haul yn dra hawddgar
    Heb garchar na ___ na gwŷn' (S.E.) (5)

**I Lawr**

1. A'r bachgen bach Iesu fydd testun y canu
   Fu'n ___ ___ ___ ar y pren' (S.E.) (6,1'1,5)
2. Taro a'i wneud yn oer i gyd (7)
3. 'Tua Bethlem dref
   Awn yn ____ gref' (W.I.) (6)
4. Cer o gwmpas mewn gorchudd i ffeindio menyw gwerylgar (6)
5. Naw ŷch mewn anhrefn yn grwgnach (5)
6. 'Bugeiliaid pan aethan' i Fethlem dre' dirion
   Hwy gawson un ____ ___ ___' (S.E.) (6,4,3)
9. Rhoi pen newydd ag ennaint i hon (4)
13. Creadur yn rhoi afal i ni (7)
14. Ffordd dros yr afon yma ac yn Ffrainc (4)
15. Sir yn cynnwys dwy afon (6)
16. Troi'r tir yn gymwynasgar bron (6)
18. Cael sefyllfa yn yr orsaf leol (5)

**Atebion Croesair 27**

**Ar draws:** 1. Gogledd; 4. Llandaf; 9. Areithio; 10. Elain; 11. Oedi; 12. Torth; 13. Cri; 15. Dawn; 16. Dery; 19. Ias; 21. Effro; 22. Igio; 24. Iraidd; 25. Chwalwyd; 26. Nerthol; 27. Canllaw. **I Lawr:** 1. Gwahoddedigion; 2. Gwendid; 3. Eithr; 5. Aberthged; 6. Dianc; 7. Fendith afon Duw; 8. Gofod; 14. Gwreiddio; 17. Ysgewyll; 18. Trochi; 20. Staer; 23. Bara.

Derbyniwyd 15 o gynigion a phob un yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gaenor Hall, Bow Street, Ceredigion. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Beryl Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, Idwal Hughes, Eira Jones, G. Jones, Margaret Jones, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Catrin Rowlands, Huana Simpson, Iona Warmington, James Wiegold ac un person di-enw! Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad ar yr ymyl.

**Cystadleuaeth Rhagfyr 01/Ionawr 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Ionawr 2002.

# Calendr y Dinesydd

**Gwener, 14 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Hamdden Caerdydd (Arweinydd: Meudwen Davies), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen leol.

**Sadwrn, 15 Rhagfyr**
Ffair Nadolig Ysgol Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd. Yn agor am 11.00 a.m. Nifer o stondinau da. Lluniaeth ysgafn. Mynediad 50c i oedolion, am ddim i blant. Bydd Siôn Corn yn galw heibio!

**Mawrth, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson Nadoligaidd wedi'i threfnu gan Ferched y Wawr, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 19 Rhagfyr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Parti Nadolig, am 7.00 p.m.

**Mercher, 19 Rhagfyr**
Ysgol Glantaf: Naw Llith a Charol yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll, ym Methel, Rhiwbina, 11 p.m.

**Llun, 7 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 9 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Alwyn Samuel, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Mercher, 9 Ionawr**
Merched y Wawr, Bro Radur: Bowlio Deg yng Nghanolfan Nantgarw, 7.30 p.m.

**Iau, 10 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs gan Geraint Lewis. Manylion pellach: 2065 7730 neu 2062 4878.

**Gwener, 11 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Rhiannon Evans yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 12 Ionawr**
Dathlu'r Hen Galan, Tŷ Mawr, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Tocynnau £5.00. Trefnir gan Cyfeillion Rhyngwladol, Caerdydd. Cysyllter â 029 2075 3625.

**Llun, 14 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Mary Wiliam ar Joseph Parry, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 10.30 a.m.

**Llun, 14 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Rhys Morgan, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 15 Ionawr**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Balloon Debate' dan ofal y Parch. Denzil John, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 15 Ionawr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gyda'r dysgwyr yng nghwmni Christine Franks, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 16 Ionawr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Paul Jeffries ar 'Ein Hoff Reilffyrdd', am 7.00 p.m.

**Gwener, 18 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Y Nofel Gymraeg: Ddoe, Heddiw ac Yfory.' Darlith gan Wiliam Owen Roberts, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 21 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Profion o Amhosibilrwydd mewn Mathemateg.' Darlith gan yr Athro James Wiegold, am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

**Mawrth, 22 Ionawr**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: Sgwrs ar Gaerdydd gan Ceri Preece, am 7.30 p.m.

**Mercher, 23 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Holi Panel o Aelodau'r Cynulliad, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Gwener, 25 Ionawr**
Merched y Wawr, Bro Radur: Noson Santes Dwynwen yng Nghlwb Golff Radur, am 7.30 p.m.

**Gwener, 25 Ionawr**
Cylch Cadwgan: Angharad Tomos yn trafod ei gwaith yn festri Tabernacl, Efailisaf, am 8.00 p.m.

**Mawrth, 29 Ionawr**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Pobl a'u Diddordebau' dan ofal Mary Thomas, am 7.30 p.m.

**Gwener, 1 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Caerdydd a'r Gymraeg.' Sgwrs gan Owen John Thomas, AC, yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Llun, 4 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Ar Gof a Chadw.' Swrs gan Meinwen Ruddock, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 4 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 6 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Dr Neville Evans, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Gwener, 8 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Dr Hefin Jones yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Llun, 11 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yng nghwmni Garwyn Davies, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 11 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Peirianneg Celloedd.' Darlith gan yr Athro Deri Tomos, am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

**Mawrth, 12 Chwefror**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Methu Coginio: Mynnu Coginio' gan Nerys Howell, am 7.30 p.m.

**Gwener, 15 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Yn y Teulu: Hanner Mileniwm o Drosglwyddo Barddoniaeth Rhys Goch Eryri.' Darlith gan Dylan Foster Evans, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Mawrth, 19 Chwefror**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd): 'Islwyn a Pantycelyn' gan Dr Glyn Tegai Hughes, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.

**Mawrth, 19 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Rhaglen nodwedd dan ofal Ann ac Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 20 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cwis dan ofal Mr a Mrs Idwal Hughes, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Mercher, 20 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Anerchiad gan Dr Dafydd Huws, am 7.00 p.m.

**Mawrth, 26 Chwefror**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Ystafell 101' dan arweiniad Hywel Jones a Marc Jon Williams, am 7.30 p.m.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Diolch am Roddion

Diolch o galon i'r canlynol am anfon rhoddion ar gyfer *Y Dinesydd* yn ddiweddar:
Cymrodorion Caerdydd, Cymrodorion y Barri, Eglwys Ebeneser (Heol Siarl), a nifer o unigolion. Fe'u gwerthfawrogir yn fawr.

## Dyddiadau i'w Nodi

Cynhelir Cystadleuaeth Canwr y Byd nesa yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, rhwng 22 a 28 Mehefin yn y flwyddyn 2003!

Yn ddiweddar enillodd Guang Yang, enillydd y gystadleuaeth yn 1997, y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Placido Domingo Operalia 2001 yn Washington DC.

## Cyngerdd yn Rhiwbina

Côr Canna, o dan arweiniad Delyth Medi, a fu'n diddanu aelodau Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina nos Lun, 5 Tachwedd. Cafwyd cyngerdd ardderchog.

## Mari Lwyd Caerdydd



Mae cylch y tymhorau yn symud yn gynt a chynt. Dim ond rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl y gwelodd yr uchod olau ddydd gyda chriw go select yn ei dilyn o gwmpas Caerdydd. Doedd bron dim sôn wedi bod ymhlith y Cymry am Fari Lwyd ers blynyddoedd ond erbyn hyn mae un ar bob pen stryd - wel, mae'n teimlo fel'ny weithiau. Mae hyd yn oed y mab yn mynd ma's 'da un. A dweud y gwir mae'r ddou pen ceffyl yn fy llofft i ac ma'r wraig yn poeni bydd ebol lan 'na hefyd cyn bo hir.

Mi fydd y Fari allan eleni 'to, yn brasgamu ar hyd lonydd yr Amgueddfa Werin, yn achosi strach yn nhŷ Hywel Jeffries a dod â Salem ei soirée i Steil y werin, yn Ninas Powys ar Ionawr 7 ac yn crwydro ar Ionawr 12. Os oes rhywun am iddi alw gadewch i'r Ostler wybod: Rhodri Jones, Dyfodwg, 8, Heol Sant Cyres, Penarth, CF64 2WQ ac fe gawn weld. Mi fydd hi yn Yr Hen Dafarn, Llangynwyd ar ddydd Calan yn ôl ei harfer.

Mae Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn cynnal noson o arferion y Nadolig a'r Cwmni Dawns sy'n eu tywys drwy'r hen arferion, y canu plygain, hela'r dryw, Mair y canhwyllau ac ati ac ati. Os oes rhywun mo'yn manylion pellach cysylltwch â'r Gymdeithas.

Mae'r Cwmni Dawns wedi bod yn brysur yn ddiweddar gyda rhyw bump o gyngherddau yn ardal Caerdydd. Mi fydd y flwyddyn newydd yn dod â mwy o waith mae'n siŵr ac yn bur debyg mi fydd rhyw stori neu ddwy i'w hadrodd. "Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Dda" o enau'r Fari.

### *Y Mab* yn Chapter

Cafwyd un perfformiad o *Y Mab*, sef drama gomisiwn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, gan Sera Moore Williams, yng Nghanolfan Chapter ar nos Sadwrn, 10 Tachwedd. Yr actorion oedd Owen Arwyn, Catrin Epworth a Llion Williams a chafwyd actio grymus gan y tri o flaen cynulleidfa niferus.

### Ymadael am yr Alban

Ar ôl tair blynedd yng Nghaerdydd fel cynrychiolydd Llywodraeth Iwerddon yng Nghymru, mae Conor O'Riordan wedi ymadael am yr Alban. Cymerir ei le gan Ian James Carroll a oedd yn gweithio yn yr Adran Materion Tramor yn Nulyn.

### Actor 10 oed

Llongyfarchiadau i Padrig Owen Jones, disgybl 10 oed yn Ysgol Melin Gruffydd, ar gael ei ddewis i actio yn y ffilm gomedi newydd, *Plots with a View*, a ffilmir yn ne Cymru gydag actorion profiadol megis Christopher Walken, Brenda Blethyn a Lee Evans.

### Ffilmio eto

Ar hyn o bryd mae Ioan Gruffydd, yr actor ifanc dawnus o Gaerdydd, yn ffilmio ar gyfer ffilm gan y BBC o'r enw *Man and Boy*, sy'n seiliedig ar nofel gan Tony Parsons. Bydd yn cymryd y prif ran ac yn cydchwarae â'r actores Natasha Richards. Gobeithir dangos y ffilm ar y teledu yn gynnar y flwyddyn nesaf.

### Cyfarwyddwr newydd i BAFTA Cymru

Cyn-bennaeth Adran Adloniant BBC Cymru ydy cyfarwyddwr newydd BAFTA Cymru, sef Geraint Evans. Llongyfarchiadau iddo fe a phob dymuniad da yn ei swydd newydd.

### Meithrinfa Gymraeg arall i Gaerdydd

Ar ddechrau mis Tachwedd agorodd Wendy Wylie a Meinir Williams, feithrinfa Gymraeg newydd yn Ffordd Gabalfa, Ystum Taf i ddiwallu'r angen am y math yma o ofal plant ifanc iawn yn y brifddinas. Cafwyd agoriad swyddogol i'r fenter newydd gyda Martyn Geraint, cyflwynydd *Planed Plant* ar S4C, yn diddanu'r plant.

### Siop *Cardiff Music* yn Llenwi Bwlch

Ers i siop *City Radio* gau, rai blynyddoedd yn ôl bellach, ni fu siop yn y brifddinas yn arbenigo mewn recordiau o gerddoriaeth glasurol. O'r diwedd llanwyd y bwlch hwnnw pan agorodd siop *Cardiff Music* yn Arcêd y Castell yn ystod yr haf. Mae dros ddeng mil o recordiau mewn stoc yno, gan gynnwys recordiau Cymraeg a jazz. Mae'r pwyslais, fodd bynnag, ar recordiau clasurol lleisiol ac offerynnol. Gallwch archebu unrhyw record a'i chael, fel arfer, o fewn ychydig ddyddiau. Cewch groeso yn y siop gan bobl sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth, ac yn gwybod peth wmbredd am recordiau.

## *Prima Donna* yn Ysgol Glantaf

Gwelir stori ar dudalen 9.





Tim cynhyrchu sioe ***Prima Donna***, a golygfa o'r cynhyrchiad

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## TABERNACL, CAERDYDD

Llongyfarchiadau i nifer o'r aelodau yn dilyn genedigaethau diweddar. Ganwyd Thomas Samuel Vickers, gor-ŵyr cyntaf Marion ac Emlyn Davies; Huw Gwyn, ŵyr cyntaf Eirlys a Gwyn Pritchard Jones; Daniel Jac, ŵyr cyntaf Verina a Hugh Matthews, a Catrin Anwen, wyres gyntaf Myfi a John Coslett.

Llongyfarchiadau i Gwenda, merch Margaret a Billy Ladd, ar ei phriodas â Nick Allen yn Jeffreyson, Sir Benfro.

Cynhaliwyd oedfa arbennig i gofio Mair Walters; cymerwyd rhan gan Eurig Davies, Tomos Walters, T J Russel Jones, Graham Thomas, Dafydd Walters a'r Gweinidog. Robert Nicholls oedd wrth yr organ.

Sefydlwyd y Parch. Ddr John Weaver yn Brifathro Coleg y Bedyddwyr ganol Hydref yn y Tabernacl, Penarth. Hefyd ddiwedd y mis, cynhaliwyd noson i anrhydeddu'r cyn-brifathro, Hugh Matthews. Llongyfarchiadau iddo ar ôl deugain mlynedd ers ei sefydlu yn Noddfa, Llanbed.

Cododd Eluned ac Owen Rook lawer o arian yn cefnogi gwaith Alzheimer wrth iddynt feicio o Fôn i Gaer - diolch iddyn nhw am eu brwdfrydedd. Hefyd, yn ystod ein cyfarfodydd diolchgarwch, codwyd dros £200 at Operation Agri, y Gymdeithas Genhadol.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Gyda chyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas yn y festri ddechrau Tachwedd cafwyd tipyn o naws cabaret gyda chanhwyllau a sacsoffon (a cherddoriaeth werin a chlasurol) a phitsa - ynghyd â danteithion niferus eraill! Mawr yw ein diolch i'r gweithwyr diwyd fu'n paratoi'r byrddau a'r bwyd, ond uchafbwynt y noson heb os oedd cyfraniad nifer o ieuenctid yr eglwys a hwythau'n rhannu o'u doniau niferus. Diolch i Bethan ac Emyr, Iona, Owen a Carwyn am noson gofiadwy.

Mae yna gynnwrf newydd yn Minny Street wrth i ni arbrofi drwy ddod â gwedd newydd i rai o'r oedfaon. Eisoes cafwyd un oedfa am 9:30 dan nawdd yr Ysgol Sul - ac mor braf oedd gweld brwdfrydedd y plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd yn yr oedfa, ac yna'n cymdeithasu dros frecwast hwyr!

Yna, nos Sul, 18 Tachwedd, cafwyd y gyntaf o oedfaon 'cylch' neu ardal chwarterol gydag aelodau Cyncoed a Phenylan y tro yma yn ein harwain mewn mawl, darlleniadau, gweddi a myfyrdodau ar y thema 'Cymod, Cariad a Heddwch'.

## EGLWYS DEWI SANT

Cydymdeimlwn â Liz, Trevor, Kate a Lloyd Smith, sydd wedi ymgartrefu yn Hong Kong, ar golli un a fu mor annwyl iddynt. Bu farw Rosemary Davies yn Holme Towers, Penarth, wedi ychydig fisoedd o salwch. Daeth tyrfa luosog i'r gwasanaeth i ddiolch am ei bywyd ar 26 Hydref. Cofiwn amdani fel gwraig hawddgar a gyfrannodd yn helaeth at fywyd ei heglwys a'i chymdeithas.

Yn ystod gwasanaeth y Cynhaeaf comisiynwyd David Leggett yn Gyfarwyddwr Cerdd newydd yr eglwys. Ef hefyd yw deiliad cyntaf Ysgoloriaeth Rosser, er cof am y Canon R M Rosser a fu'n ficer yr eglwys am dros ddeng mlynedd ar hugain. Gŵr ifanc o gyffiniau Aberystwyth yw David sydd yn awr yn fyfyriwr ymchwil yn Adran Gerddoriaeth y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bu'n ddirprwy gôr-feistr Côr y Brifysgol a hefyd yn organydd a chôr-feistr yn Eglwys Sant Saviour, y Rhath. Tra oedd yno, rhyddhawyd crynoddisg gan gôr yr eglwys. Ei fwriad yw cryfhau côr Eglwys Dewi Sant. Gobeithiwn y bydd e'n hapus yn ein plith.

## EBENESER CAERDYDD YN DATHLU EI PHEN-BLWYDD YN 175 OED

Ar ddydd Sul, 18 Tachwedd 2001, dathlwyd pen-blwydd Eglwys Ebeneser yn 175. Cychwynnwyd yr achos ym mis Mawrth 1826 ond gan ein bod yn tybied y byddai Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni, gohiriwyd y dathlu tan ddiwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd tri chyfarfod yn ystod diwrnod y dathlu.

Yn y bore cawsom gyfle i ymuno ag ysgolion Sul eraill eglwysi Cymraeg Caerdydd yn y Tabernacl ar gyfer gwasanaeth Sul yr Urdd. Cyflwynodd ieuenctid Ebeneser, o dan arweiniad Fflur Bedwyr, eitem a oedd yn tynnu ein sylw at gariad a chyfiawnder y ffydd Gristnogol.

Aethom draw wedyn i Ebeneser ar gyfer oedfa'r prynhawn i ddathlu dechreuadau'r achos. Yr oedd llawr y capel yn gyfforddus lawn, a nifer o hen gyfeillion wedi ymuno â ni. Hyfrydwch o'r mwyaf oedd cael croesawu ein cyn-weinidog, y Parch Ddr Emlyn Jenkins yn ôl atom a chael cyfarchion gwresog trwy gyfrwng fideo gan gyn-weinidog arall, y Parch Ddr Geraint Tudur. Yr oedd y cwrdd yn un amrywiol iawn gyda nifer o eitemau, gan gynnwys
caneuon gan gôr yr ysgol Sul. Cafwyd hanes cychwyn yr achos yn 1826. Rhoddodd y gweinidog, y Parch Ddr Alun Tudur, air o ddiolch ac edrych ymlaen i'r dyfodol.

Wedi gwledd o fawl, cafwyd gwledd o fwyd. Wedi bwyta, cynhaliwyd cymanfa o dan arweiniad meistrolgar Arwel Peleg Williams, gyda Cedric Jones yn cyfeilio. Yr oedd yn oedfa fendithiol o ddathlu a llawenhau.

## EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG CAERDYDD

Nos Fawrth, 6 Tachwedd, daeth nifer ynghyd i'r swper diolchgarwch blynyddol. Y siaradwr gwadd eleni oedd y Parch Geraint Morse, Caerfyrddin. Darluniodd ei brofiad yn symud cartref a chlirio'r sbwriel, a soniodd am y modd y gall yr Arglwydd Iesu Grist glirio'r llanastr o'n bywydau. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd, ac i Catrin Lewis am drefnu'r arlwy.

Brynhawn Sul, 11 Tachwedd, cynhaliwyd te croeso i rai sy'n dysgu siarad Cymraeg. Gwerthfawrogwyd y croeso a'r cyfle i sgwrsio, a chafwyd cyfle i baratoi ar gyfer yr oedfa drwy gyflwyno geirfa berthnasol.

Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â'r eglwys mewn oedfa garolau i oedolion nos Sul, 16 Rhagfyr. Ar y bore Sul canlynol, 23 Rhagfyr, cynhelir oedfa garolau i'r teulu, ac ar nos Wener, 21 Rhagfyr, cynhelir y Parti Nadolig.

## BETHEL, RHIWBINA

Unwaith eto eleni at yr anghenus yn Rwmania yr anfonwyd y llu o nwyddau a dderbyniwyd yn ystod y Cwrdd Diolchgarwch. Daeth llawer o'r nwyddau oddi wrth aelodau'r Ysgol Sul ac yn ystod y gwasanaeth mwynhawyd cyfraniadau ar gân hefyd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog, y Parch T. Evan Morgan. Cynhaliwyd dau fore coffi i godi arian at achosion da. Derbyniwyd cyfraniadau teilwng iawn tuag at Gronfa Cŵn Tywys y Deillion a Chronfa Ymchwil yr Arennau. Cynhaliwyd un o'r boreau coffi yng nghartref Mrs Eilonwy Jones ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi hi am y croeso.

Bu angladd Mrs Margaret Doreen Evans, Llanisien, ym Methel, 15 Tachwedd. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i gŵr, Mr Alfred Evans, a'r teulu i gyd.

## TAITH YR ORSEDD I'R WLADFA

Fore Iau, 11 Hydref, cyfarfu criw bach ohonom o Gaerdydd â llond bws o'r gorllewin i ddechrau'n taith, drwy Heathrow a Milan i Batagonia. Anne Innes, Robin Jones, Haydn Thomas, Rhiannon a minnau oedd y criw. Erbyn cyrraedd maes awyr Bariloche, wrth droed yr Andes, ar y pnawn Sadwrn yr oeddem wedi tyfu'n garfan o naw deg tri o bob rhan o'r wlad a'r rhan fwyaf ohonom ar ein hymweliad cyntaf â Gwlad y Cewri.

Er i ni ymgynnull yn Esquel, anelu roeddem am y Gaiman, lle'r oedd Gorsedd y Wladfa i'w hailsefydlu ar fore Iau, 18 Hydref, gan yr Archdderwydd Meirion. Rhyfeddu at awyr glir a golygfeydd Esquel, Trevelin a'r Cwm Hyfryd; oedi ennyd yng Nghartref Taid, Fferm Nant Fach a Nant y Pysgod, a chlywed gan ein tywysydd, Elvey MacDonald, am hanes cyffrous ac anturus y sefydlwyr cynnar – a daeth yn bryd croesi'r paith i Ddyffryn Camwy. Wedi aros am ychydig yn Nyffryn y Merthyron, a chynnal gwasanaeth byr ar safle'r unig ymosodiad treisgar gan y brodorion yn erbyn y Gwladfawyr, cyrhaeddwyd y Gaiman.

Gwanwyn oedd hi yn y Wladfa. Roedd yr awyr yn las. Dau *gaucho* ar gefn eu ceffylau oedd yn arwain yr orymdaith orseddol, a baner y Ddraig Goch yn nwylo'r ddau. Daeth torf fawr i gylch yr Orsedd i groesawu'r gorseddogion o Gymru yn eu gwyrdd, glas a gwyn. Roedd yr Archdderwydd yn ei aur ysblennydd ar faen llog o garreg anferth a ddangosai'r haenau o fwynau sydd yn naear Patagonia.

Canwyd yr utgyrn gan ddau blismon o Drelew, ffanffer a gyfansoddwyd gan yr un a oedd i'w ddyrchafu'n Llywydd Gorsedd y Wladfa – Clydwyn ab Aeron. Wedi i'r Archdderwydd gyhoeddi ei fod yn sefydlu Gorsedd y Wladfa yn swyddogol, urddwyd deugain o orseddogion newydd yn gwisgo eu *ponchos* glas golau – rhai am eu cyfraniad i ddiwylliant y Wladfa; rhai yn enillwyr cadair a choron eu Heisteddfod (gan gynnwys enwau dieithr iawn i'n clustiau – a'n tafodau – ni, fel Demetrio Charalambous); eraill yn athrawon Cymraeg ... ac urddwyd Alwina Thomas a Sandra de Pol i Orsedd Cymru (Sandra oedd Dysgwr y Flwyddyn ym Mhrifwyl Llanelli 2000).

Ychwanegwyd at naws wahanol y seremoni gan Gôr Merched y Gaiman a chan y plant ifanc iawn a ddawnsiodd yn union fel y gobeithid y byddai plant ifanc iawn yn dawnsio.

Coronwyd Clydwyn ab Aeron â choron hardd a oedd yn rhodd Gorsedd Cymru, a gobaith pawb oedd yno yw y bydd yr Orsedd hon yn hirach ei pharhad na'r Orsedd a ffurfiwyd gan Gutyn Ebrill yn 1881. Ailagorwyd yr Orsedd newydd yn Nhrelew ar y Sadwrn i seremoni cadeirio yn Eisteddfod y Wladfa. Ar drydydd caniad yr utgyrn cododd 'Mawddwy' ar ei thraed. Ie, er nad ar y gynghanedd, merch a enillodd y gadair hon hefyd.

Ffilmiwyd yr holl basiantri ar gyfer S4C a'r bwriad yw dangos dwy raglen am y daith gyfan rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

**R Alun Evans**

### Llongyfarchiadau i

- Ffion, merch Elin a'r diweddar Rhys Tudur, Treganna ar ei dyweddïad â Rhys Meilir, mab Bill a Ruth Davies, Llandegfan, Ynys Môn.
- Gareth Kiff, Pontprennau, Swyddog Datblygu Menter Caerdydd, ar gael ei benodi yn Diwtor Hŷn yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg, 42 Plas y Parc, Caerdydd.
- i Robert, Kate, Owen a Gruffydd Spittle, Heol yr Orsaf, Llanishen ar enedigaeth merch fach, Menna, ar 31 Hydref.

## LLWYDDIANT NOSON SBAENAIDD YN NINAS POWYS

Cynhaliwyd Noson Sbaenaidd gan Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys ym mis Tachwedd i godi arian at elusen strôc. Gweithiodd aelodau'r gymdeithas yn galed iawn yn addurno'r neuadd ac yn coginio pryd ar gyfer 82 o bobl – y cyfan ar thema Sbaenaidd.

Darparwyd adloniant y noson gan Theresa Gauk Roger, dawnswraig Flamenco o Abertawe, ynghyd â Gareth Price – gitarydd Sbaenaidd o Gaerdydd. Cafodd perfformiadau'r ddau dderbyniad gwresog iawn a chanmoliaeth uchel gan y gynulleidfa.

Bydd siec am £700.00 yn cael ei chyflwyno i'r elusen strôc yng ngwasanaeth carolau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys, nos Lun 17 Rhagfyr, am 7.30 yn Eglwys San Pedr, Dinas Powys. Croeso cynnes i bawb!

## CADWCH EICH SBWRIEL!



Wyddech chi fod y gost o godi sbwriel o briffyrdd Caerdydd hyd at £110,000 y flwyddyn?

Mae swyddogion Adran Briffyrdd y ddinas yn glanhau 4 cilometr ac yn codi tua 5 tunnell o sbwriel bob dydd o'r prif ffyrdd sy'n dod i fewn i'r ddinas - yr A470, yr A48 ac ati - ac mae hyn yn golygu gorfod cau lonydd am hyd at 5 awr ar y tro. Mae'r adran yn ymdrechu i wneud gwaith cynnal a chadw yn ogystal â chodi sbwriel tra bod y lonydd ar gau ond gall y gost o lanhau'r rhan o'r ffordd sydd ar gau fod hyd at £10,000 y tro.

Ar wahân i'r ffaith fod yr holl sbwriel yn creu argraff wael ar ymwelwyr i'r ddinas, gall unrhyw un sy'n cael ei ddal yn taflu sbwriel gael ei ddirwyo hyd at £2,500. Y neges yn fyr yw - taflwch eich sbwriel i'r bin ac nid ar y ffordd!

## HYRWYDDO DIWYLLIANT YN EWROP

Derbyniodd y Dr Robin Gwyndaf wahoddiad i wasanaethu am dymor pellach ar Fwrdd Cydwladol Canolfan Diwylliant Traddodiadol Ewrop, o dan nawdd UNESCO. Ef yw'r unig gynrychiolydd dros Brydain ar y Bwrdd, a bu'n aelod o'r dechrau pan sefydlwyd y Ganolfan yn Budapest, Hwngari, yn 1996. Amcan clodwiw y ganolfan unigryw hon yw hyrwyddo diwylliant gwerin ledled Ewrop, yn y gwledydd gorllewinol a dwyreiniol.

Y mae Robin Gwyndaf (sy'n Guradur Llên Gwerin yn Amgueddfa Werin Cymru ac yn gyn-Ddarlithydd Anrhydeddus mewn llên gwerin ym Mhrifysgol Cymru, Bangor) hefyd yn Gymrawd Llên Gwerin Cydwladol ac yn derbyn gwahoddiadau mynych i ddarlithio dramor. Yn gynharach eleni bu'n ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol California.

### Cydymdeimlir

- â Tom McPherson a'r teulu ar farwolaeth ei wraig, yr actores Dilys Price, ym Mhenarth, ar 9 Tachwedd. Cafodd Dilys Price ei geni ym Mhencarnisiog, Ynys Môn, a graddiodd mewn Almaeneg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Dechreuodd ei gyrfa actio tra oedd hi'n fyfyrwraig ym Mangor a bu'n actio mewn dramâu radio a gynhyrchwyd gan Wilbert Lloyd Roberts a John Gwilym Jones. Ymddangosodd mewn sawl drama yn Gymraeg a Saesneg ar y teledu yn ystod ei gyrfa hir.
- â Dewi Vaughan Owen, Rhiwbina, a'r teulu oll ar farwolaeth ei wraig, Valerie, yn 49 oed yn Ysbyty Felindre, yr Eglwys Newydd.
- â theulu y diweddar Robin Reeves, Dinas Powys, golygydd y cylchgrawn *New Welsh Review*, a fu farw o ganser ar 2 Tachwedd. Yn ystod ei yrfa fel newyddiadurwr bu'n gweithio i'r *Financial Times* ym Mrwsel ac yna yn olygydd cynorthwyol y *Western Mail* cyn ymgymryd â golygyddiaeth *New Welsh Review*. Cynrychiolodd Blaid Cymru ar Gyngor Bro Morgannwg.

# Glantaf

## Llangrannog

Sgïo, beicio, gwibgartio, merlota....Dyma rai o'r gweithgareddau cefais flas arnyn nhw yr wythnos diwethaf. Bagiau trwm, sachau cysgu pob lliw - roedd golwg wahanol ar y neuadd ar fore Llun. Roedd trip blwyddyn 7 ar fin cychwyn.

Dim ond edrych drwy'r ffenest a wnaeth rhai gydol y daith - pob un yn ysu am gyrraedd. Nid plant yn unig oedd yn edrych ymlaen. Roedd gwên ar wyneb yr athrawon hefyd wrth weld yr arwydd coch, gwyn a gwyrdd yn dod i'r golwg.

Diolch byth fod y chweched wedi dod gyda ni! Fyddwn i ddim wedi gallu cario'r bagiau yna i mewn i fy ystafell heb eu help. Doedd dim bai ar yr ystafell ond ces i a fy ffrindiau ein rhoi yn yr unig ystafell yn Hafod heb sinc a drych - cosb i ferched 11 oed.

Chawsom ni ddim amser i ymlacio o'r funud cyrhaeddom ni! Gweithgareddau a discos di-ri. Llynedd y cwrs rhaffau oedd fy hoff weithgaredd ac eleni eto y gweithgaredd hwn oedd fy ffefryn. Mae'n gymaint o sialens.

Yn anffodus roedd rhaid i'r wythnos ddod i ben.Wynebau blinedig nid bywiog ddaeth oddi ar y bws brynhawn Gwener!

**Catrin Treharne**

## Deutschland war wunderbar!

Dyma'r tro cyntaf i fi gael mynd i aros mewn cartref Almaenig ac roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr at y profiad.

Gadewais Trefflemin fore Sadwrn am 8:00 y bore - yna taith mewn car i'r ysgol, ar y bws i Dover, yna trwy'r twnnel mewn trên, taith hir arall yn y bws a chyrraedd yr Almaen am 10:30 y nos - taith hir iawn!

Enw fy ffrind yn yr Almaen oedd Marc a mwynheais dreulio amser gyda fe a'i deulu. Roedd y bwyd wrth gwrs yn wahanol - er enghraifft y platiad o gig oer i swper.



*James ac eraill yn mwynhau blasu siocled*

Buom ni ar dri thrip yn ystod yr wythnos. Ar ddydd Mawrth aethom ni i Cologne, lle gwelsom yr eglwys gadeiriol a'i ffenestri lliw hardd a'r tŵr uchel iawn iawn. Uchafbwynt y trip oedd mynd i'r amgueddfa siocled a chawsom flasu peth ohono. Dydd Mercher roedd yn ŵyl i gofio uno'r Almaen. Doedd dim ysgol ac roedd cyfle i ymlacio gyda'r teulu.Yna dydd Iau aethom i Bonn lle bûm i'n siopa am anrhegion ac yn ymweld â'r amgueddfa hanes.

Uchafbwynt y daith oedd mynd i Phantasialand am chwe awr o hwyl a sbri!

Yn anffodus ar y dydd Sadwrn roedd rhaid ffarwelio â'r Almaen a dweud Auf Wiedersehen wrth y ffrindiau newydd yno ond mae gen i lawer o atgofion hapus. Diolch yn fawr i Frau Watts, Herr Evans, Mrs Gaynor Jones am drefnu ac i Mrs Catherine Jones am fod yn gwmni i mi.

**James Yorke-Wade**

# YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

## Yr Adran Dechnoleg

Dros yr haf bu'r adeiladwyr wrthi'n brysur yn cwblhau'r gwaith ar adeilad pwrpasol ar gyfer yr Adran Dechnoleg. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn yr adran yn golygu bod pum ystafell bwrpasol ar gyfer Bwyd, Deunyddiau Gwrthiannol, Electroneg a Thecstilau, yn ogystal ag adnoddau bendigedig i'w defnyddio yn y gwahanol feysydd pwnc.

Roedd gan Flwyddyn 7 sialens arbennig yn ddiweddar. Dros gyfnod o ddeuddydd, bu'n rhaid i grwpiau o ddisgyblion ddylunio ac adeiladu pont fel rhan o weithdy 'Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu' (CITB). Bu'r sialens yn un llwyddiannus tu hwnt.

## Yr Adran Ieithoedd Tramor Modern

Rydym yn falch o'r cyfle i groesawu Severin, cynorthwydd tramor o Berlin eleni. Mae'r profiad o siarad ag Almaenwr yn un gwerthfawr i'r disgyblion gan eu bod yn cael cyfle i wybod mwy am yr Almaen yn ogystal â gwella eu sgiliau llafar.

## Gwyddoniaeth

Derbyniodd Blwyddyn 8 wahoddiad i lansio Blwyddyn Gwyddoniaeth Cymru yn Techniquest yn ddiweddar. Er mwyn ceisio creu daeargryn, neidiodd y disgyblion, ynghyd â Jane Davidson (Gweinidog Addysg y Cynulliad). Roedd pobl ledled Prydain yn neidio yn union yr un pryd.



*Project paratoi bwyd ar waith yn un o ystafelloedd newydd yr Adran Dechnoleg*

## Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Kieron Harding, Blwyddyn 7 ar ennill cytundeb ysgolion dwy flynedd gyda Chlwb Pêl-droed Caerdydd. Mae tîmau pêl-rwyd Blwyddyn 8 wedi cael dechrau gwych i'r tymor gan ennill pob gêm hyd yn hyn. Yr un yw hanes tîm hoci Blwyddyn 8.

## Animeiddio

Mae prosiect cyffrous ar y gweill i greu rhaglen animeiddio/fideo a fydd yn trafod datblygiad yr iaith Gymraeg yn yr ardal hon. Mae'r plant wrth eu bodd yn gweithio gydag un animeiddiwr profiadol a chynhyrchydd ffilm/fideo. Edrychwn ymlaen at weld y ffilm yn fyw ar y sgrîn yn sinema y Barri.

# TUDALEN YR URDD



## Cwrs Animeiddio

Cwrs dau ddiwrnod Animeiddio a drefwnyd ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 5 & 6 ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro yn ystod hanner tymor mis Hydref. Owen Stickler ac Aron Evans oedd yn gyfrifol am redeg y cwrs a chafwyd ymateb gwych gyda dros 20 o blant yn mynychu. Mae gwaith y myfyrwyr ifanc ar safle we yr Urdd - www.urdd.org

## Cwrs Uwchradd i Glanllyn

Ganol mis Hydref trefnwyd cwrs ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 8 a 9 ysgolion Bro Morgannwg, Glantaf a Phlasmawr yng Nglanllyn. Mynychodd rhyw 33 o ddisgyblion y cwrs. Er mai criw bach fynychodd y cwrs cafodd pawb amser gwych gan iddynt gael cyfle i ganwio, dringo, rafftio a llwer mwy ...





## Cwrs Merlota

Gweithgaredd arall a drefnwyd yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref oedd cwrs merlota yn Llancarfan. Cafodd pawb gyfle i ddysgu trin ceffylau, eu glanhau, eu gwisgo ac yna mwynhau gwersi reidio. Roedd cystadlaethau ar ddiwedd y dydd, a *rosettes* i'r enillwyr. Diwrnod i'w gofio a phawb wedi blino'n lân wrth fynd adre. Dyma lun o rai o'r disgyblion.



*Merched Melin Gruffydd gyda'i medalau.*

## Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd Rhanbarth Caerdydd a'r Fro

Eleni eto trefnwyd cystadlaethau pêl-droed 7 bob ochr yng Ngerddi Soffia ar gyfer ysgolion cynradd y sir. Y ddwy ysgol a gyrhaeddodd gêm derfynol y bechgyn eleni oedd Ysgol Eglwys Newydd ac Ysgol Sain Ffagan. Sain Ffagan oedd yn fuddugol a nhw fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Aberystwyth ym mis Ebrill 2002. Eleni, am y tro cyntaf, trefnwyd cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr i ferched yr ysgolion cynradd. Roedd saith o dîmau yn y gystadleuaeth, gydag Ysgol Eglwys Newydd a Melin Gruffydd yn cyrraedd y gêm derfynol. Ysgol Eglwys Newydd enillodd a'r sgôr derfynol oedd 3-0.



# YSGOL Y WERN



### Sbondonics yn Dathlu Deunaw

Bu parti mawr yn Ysgol y Wern yn ddiweddar i ddathlu'r ffaith bod clwb llyfrau plant Sbondonics yn ddeunaw oed, ac yn dal i fynd o nerth i nerth. Lansiwyd y clwb, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Llyfrau Cymru, yng Nghaerdydd yn ôl yn 1983, yng nghwmni nifer o sêr y cyfryngau ar y pryd. Roedd hi'n briodol iawn, felly, fod y Cyngor Llyfrau yn dychwelyd i'r brifddinas ar gyfer y dathliadau deunaw oed. Cynhaliwyd y parti yng nghwmni plant Blwyddyn 5 gyda'r seren deledu, Eddie Butler, o raglen blant *Hotel Eddie*, yn ymuno yn yr hwyl. Ffilmiwyd y parti, gan gynnwys campau Eddie gyda'r deisen ben-blwydd, gan raglen *Uned 5*.

# Plasmawr

### Llongyfarchiadau:

- i Elin Rees o Flwyddyn 9 a Mali Llywelyn o Flwyddyn 11 am ennill yng nghystadlaethau Cardiff and the Vale Young Musicians of the Year.
- i Elin Rees, Gwen Holeyman, Eirian Xerri a Nanw Williams, aelodau o'r côr telynau a ddaeth yn ail o dan 19, ac eto i Elin Rees a ddaeth yn drydydd o dan 13, yn yr Ŵyl Gerdd Dant.
- i Rhys Thomas o Flwyddyn 8 sydd wedi cael ei ddewis i nofio i'r sir ym Mhencampwriaeth Cymru.
- i Gethin Thomas o Flwyddyn 10 sy'n chwarae i dîm rygbi Ysgolion Caerdydd dan 15 ac sydd wedi cael ei ddewis ar gyfer treialon 'Pentathalon' Cymru.
- i Leigh Stephen o Flwyddyn 7 am ennill medal arian mewn cystadleuaeth ryngwladol Tai Kwon Do.

### Ymweliad y Chweched â'r Cynulliad

Ar 9 Tachwedd, aeth criw o ddisgyblion Cymraeg a Saesneg o Flwyddyn 12 i ymweld â'r Cynulliad. Ar ôl cyrraedd Glanfa'r Cynulliad roedd mesurau diogelwch mewn grym oherwydd y pryder am y digwyddiadau diweddar yn America.

Cawsom gyflwyniadau ar wahanol agweddau o waith *Y Cofnod*, sy'n cofnodi popeth sy'n cael ei ddweud ym mhob un o gyfarfodydd y Cynulliad. Lisa Tiplady oedd un o'r siaradwyr, ac fe fu hi'n sôn am y problemau sy'n codi wrth gyfieithu acronymau. Cawsom hefyd gyfle i gael blas ar ychydig o waith *Y Cofnod*. Roedd yn rhaid ailysgrifennu rhan o ateb Carwyn Jones i Rhodri Glyn Thomas, fel ei fod yn fwy dealladwy, cywir a chryno!

Ar ôl ymweliad byr â'r arddangosfa aml-gyfrwng, aethom ymlaen i adeilad y Cynulliad. Cawsom archwiliad diogelwch arall. Aethom i mewn i oriel y brif siambr i holi ychydig o gwestiynau i Owen John Thomas (Plaid Cymru), a Jonathan Morgan (Ceidwadwyr), am natur y trafodaethau sy'n mynd ymlaen yn y siambr. Gofynnwyd hefyd am farn y ddau ar y dechnoleg eang sy'n cael ei defnyddio yn y siambr, gan fod gan bob aelod gyfrifiadur blaen-bys. Profiad diddorol ac addysgiadol. Byddai'n bleser mynd eto, ar fore Mawrth neu brynhawn Iau i'r oriel, i wrando ar y trafodaethau sy'n mynd ymlaen yno.

**Sioned Wyn**

### Ymweld ag amgueddfeydd Llundain

Er mwyn cael ysbrydoliaeth aeth dosbarth Dylunio a Thechnoleg a dosbarth Celf Blwyddyn 12 ar drip i Lundain. Y bwriad oedd ymweld ag amgueddfeydd addas ar gyfer y cwrs. Wedi'r siwrnai hir yn y bws mini, aethom i amgueddfa gelf Victoria & Albert. Aeth y dosbarth Celf ati i ddylunio brasluniau o ddeunyddiau'r llawr gwaelod a oedd yn cynnwys pob math o gelf o'r ganrif ddiwethaf. Ymweld â'r adran ddylunio clasurol a wnaeth y dosbarth Dylunio a Thechnoleg. Roedd yr arddangosfa yn llawn lliwiau a siapiau diddorol a gwreiddiol. Hefyd, fe welsom arddangosfa o waith Frank Lloyd Wright, pensaer enwog yr oeddem wedi astudio'i waith ychydig wythnosau ynghynt.

Ar ôl cinio aethom i'r 'Design Museum'. Cefais lawer o ysbrydoliaeth wrth weld yr arddangosfa arbennig o waith y 'Memphis Movement', symudiad pwysig iawn i ddylunio yn yr 80au. Ar ddiwedd y dydd, dyma ni'n dychwelyd i Gaerdydd yn llawn ysbrydoliaeth a syniadau newydd.

**Elenid Hatcher**

# *Prima Donna* yn Ysgol Glantaf



Wel, dyna beth oedd sioe fythgofiadwy yr orau eto yn ôl sawl un!

Do, fe gafodd y disgyblion a'r staff hwyl arni yn perfformio'r sioe *Prima Donna* ym mis Tachwedd. Roedd pob tocyn wedi'i werthu wythnos ymlaen llaw, y cynulleidfaoedd yn niferus iawn, ac yn barod i weld sioe liwgar, lawn hwyl a sbri!

O'r funud yr oeddech yn cyrraedd y neuadd (gyda gwydraid o win neu sudd yn eich llaw) roeddech yn teimlo fel petaech mewn byd arall a braf oedd gweld bechgyn y chweched yn eich tywys i fewn ac i'ch sedd yn eu D.J.s! Roedd y set aur ac arian a choch a glas yn wefreiddiol gyda'r goleuo proffesiynol yn tynnu pob owns o liw allan o'r cefndir. Dyma'r tro cyntaf i sioe Glantaf gynhyrchu safwe yn uniongyrchol ar y sioe ac roedd cyfle i bawb fynd ar y safwe yma ar ddechrau'r sioe ac yn yr egwyl gan fod yna gyfrifiaduron wedi'u gosod yn y cyntedd. Diolch i aelodau'r chweched am eu dychymyg a'u gweledigaeth!

Bu'r paratoadau yn drylwyr dros ben - y disgyblion a'r staff wedi bod wrthi am oriau ac oriau yn ymarfer, a hynny ar ôl yr ysgol ac ar bedwar penwythnos. Ond, yn sicr, fe dalodd ffordd! Cafwyd perfformiadau caboledig ar bob un o'r pedair noson - y corws yn cyd-symud ac yn cyd-ganu yn wych (dros 120 ohonynt). A beth am y prif gymeriadau? Roeddent yn gwbl broffesiynol - Johnny Sharkey creulon (Iwan Rheon Bl.12), y prifathro 'swil a thawel' (Tomos Lewis Bl.13), y 'Prima Donna' brydferth (Samantha Lloyd Bl.13), y gofalwr Dan Dean doniol (Gruffydd Glyn Bl.11), y merched annifyr Claire ac Eleri (Hannah Daniel ac Elinor Evans Bl.11), y bachgen di-hyder Rhodri (Steffan Jones Bl.10), y fam bryderus (Ceri Mears Bl.13), y tad balch (Huw Miles Bl.13), y fodryb alcoholig (Carys Stevens Bl.12) a'r athrawes ddrama ffwdanus a ffyslyd (Gwenllian Glyn Bl.13). Ffantastig!

Anodd iawn yn wir oedd credu taw disgyblion ysgol oedd aelodau'r band! Roedd eu chwarae yn broffesiynol ac yn gerddorol. Mae yma ddawn a thalentau diamheuol yn offerynnol. Fe glywyd dawn byrfyfyrio ambell un ar y sacsaffon ac unawd gitar flaen i'w gofio. Roeddent yn well na sawl band proffesiynol!

Do, fe gafodd amryw o ddisgyblion gyfle i arddangos eu talentau - o ganu i actio, o ddawnsio llinell i'r 'Sêr yn eu llygaid'! Diolch o galon i bawb a fu ynghlwm wrth y sioe. Roedd y safon yn aruchel, ac ambell un hyd yn oed yn dweud bod y cynhyrchiad yn well na sawl sioe arall a welir yn y 'West End'! Wel, y West End amdani felly!

Diolch i bawb! Tan y tro nesaf!



## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies



Gobeithio erbyn hyn eich bod wedi gorffen eich siopa Nadolig ac yn eistedd yn glyd o flaen y tân, yn bwyta mins peis ac yn gwylio Morcambe and Wise neu Caryl Parry-Jones ar y bocs. Wrth imi sgrifennu hyn, dw i ddim hanner ffordd trwyddo ac yn ceisio penderfynu beth i'w roi i 'nhad, i mam, i fy chwaer-yng-nghyfraith ac i'r gath. Mae 'mrawd yn hawdd - crys T neu grys chwys mewn lliw ymarferol heb ddim byd ynglŷn â rygbi na phêl-droed arno (fy nith sy'n gwisgo crys T Cwpan Rygbi'r Byd); mae'r plant yn paratoi rhestrau, gan gyfeirio at union dudalen catalog Argos neu'r siop ddillad y gwelon nhw'r top/trwsus/crys 'na ynddo; mae'r ci yn hapus gyda 'chews' flwyddyn ar ôl blwyddyn. 'Nhad yw'r un mwya' anodd - mae ganddo ddigon o ddillad, dyw e ddim yn yfed llawer, mae e wedi mynd off siocled - llyfrau a sanau yw'r unig beth sydd ar ôl. Mae llwyth o bethau fyddai'n plesio Mam - dewis rhyngddyn nhw yw'r broblem. A tybed a fyddai fy chwaer-yng-nghyfraith yn mwynhau Dyddiadur Blodwen Jones, neu fyddai Modrybedd Afradlon yn fwy addas? A'r gath - rwy wedi bod yn pendroni am amser hir. Ddylwn i brynu bwyd arbennig - rhyw *sachet* o Whiskas costus, neu dún samwn? Nage, fyddai hi byth yn mynd 'nôl at fwyd cath wedyn. Un o'r powlenni bwyd smart 'na yn Marks, efallai? Nage, mae hi'n ddigon hapus gyda'i soser arferol. Beth am flanced fflîs, 'te, imi gael fy un i yn ôl? Ychydig bach yn ddrud. Nage, rwy wedi penderfynu - fe gaiff hi'r lygoden fach welais i'n ddiweddar, rydych chi'n ei weindio lan a byddai, gobeithio, yn tynnu ei meddwl oddi ar yr anifeiliaid bach anffodus mae hi'n dod â nhw o dro i dro i mewn i'r tŷ. A siocledi cath, efallai, os yw hi'n dda - na, mae hynny'n gofyn am ormod - os nad yw hi'n rhy ddrwg...

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| chwaer-yng-nghyfraith - *sister-in-law* | tybed - *I wonder* |
| crys chwys - *sweat shirt* | llwyth - *a load* |
| ymarferol - *practical* | pendroni - *to puzzle* |
| ynglŷn â - *concerning* | powlen - *bowl* |
| cyfeirio - *to refer* | anffodus - *unfortunate* |
| | gormod - *too much* |

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon



Nid yw Rhagfyr a Ionawr yr amser gorau i fynd allan i arddio, heblaw eich bod yn arddiwr brwd iawn, ond mae yn amser da i gynllunio. Edrychwch allan drwy'r ffenest. A oes gan eich gardd sgerbwd da? Hynny yw, yr esgyrn hynny sydd yn dal y cyfan at ei gilydd. Canol gaeaf yw'r adeg gorau i weld ei siâp a'i ffurf, pan fo'r tyfiant ar ei fan isaf. Gellwch weld y fframwaith yn glir.

Dyna pryd mae'r 'supporting cast' yn dod i ganol y llwyfan, h.y. coed pîn a llwyni bythwyrdd na fyddwch yn sylwi llawer arnynt yn yr haf pan mae pethau mwy lliwgar i'w gweld, ond nawr maent yn dal y llygad.

Un ffordd o gael sgerbwd da yw cael mwy o ffurfioldeb. Mae gerddi ffurfiol yn edrych llawn gystal yng nghanol gaeaf ag yng nghanol haf, gan nad ydynt yn dibynnu ar flodau. Dibynnant yn lle ar goed neu lwyni fel bocs neu yw wedi eu torri i siâp syml fel cylch, côn neu sgwâr i ddal y llygad.

Ffordd arall o greu fframwaith yw cael llwyni bythwyrdd fell 'skimmia' a 'pieris', yn enwedig rhai â dail brith fel 'aucuba' ac 'euonymus'. Gellir defnyddio coed â rhisgl arbennig o brydferth, neu blanhigyn pensaerniol fel 'phormium tenax', neu hyd yn oed gerfluniau. Yna, gallwch lanw i mewn rhwng y rhain gyda'ch planhigion parhaol ar gyfer y tymhorau eraill.

Felly, os oes gennych gornel wag neu forder newydd i'w lanw, meddyliwch yn gyntaf sut y bydd yn edrych ym mis Ionawr cyn mynd ati i ddewis pa flodau haf i'w plannu ynddo.

Tynnwch eich cadair yn nes at y tân, a chyda papur a phensel yn eich llaw ac ambell lyfr garddio am ysbrydoliaeth, breuddwydiwch am beth a all fod y tu allan i'ch drws cefn yn nghanol gaeaf.

**Clwb Siarad / Dysgu Cymraeg**

**YR AWR HAPUS**

Gwesty'r Pentref, Coryton ger Asda
Bob bore Llun 11-12 o'r gloch
gyda Gwilym Dafydd
CROESO CYNNES I BAWB!




## Croeso Iestyn!


Mae ymddangosiad Iestyn Harries ym myd Rygbi'r Undeb wedi creu tipyn o gyffro ymhlith cefnogwyr y gêm. Dychwelodd i Gymru i chwarae dros Glwb Caerdydd ar ôl gyrfa ddisglair gyda Rygbi'r Gynghrair yn Lloegr, ac yntau ond yn bump ar hugain oed. Bu ei dad-cu, Norman Harries, 84 oed, sy'n enedigol o Aber-carn, yn chwarae rygbi dros Bont-y-pŵl, Glynebwy a Threcelyn cyn symud i Oldham i chwarae Rygbi'r Gynghrair. Pob lwc a llwyddiant i Iestyn yn ein plith!

## Marathon Efrog Newydd

Roedd o leiaf dau o Gaerdydd yn rhedeg ym marathon Efrog Newydd ar 4 Tachwedd, sef Iwan Walters o Riwbina ac Alan Rees o'r Eglwys Newydd. Bu Iwan ar daith yn Ne America a Phatagonia dair wythnos cyn y marathon! Cafodd hwyl ar y rhedeg a chyflawnodd y gamp mewn tair awr a deugain munud. Roedd tua 35,000 o bobl yn rhedeg yn y ras eleni. Gwisgodd Iwan faner y Ddraig Goch ar ei frest a'i gefn ac wrth redeg cafodd lawer o gyfarchion megis "Cymru am byth!", ac ati, gan Gymry oedd yn gwylio'r rhedwyr ar y cwrs o gwmpas Efrog Newydd. Enillwyd ras y dynion gan Tesfaye Jifaf o Ethiopia a ras y merched gan Margaret Okayo o Kenya.

Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl:
8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn
BT
**Ffoniwch heddiw**
*i gofrestru am fil ffôn Cymraeg (bil ffôn cyffredin) ynghyd â chatalog gwybodaeth yn y Gymraeg*
*BT bob tro 0800 800 288*
*Defnyddiwch eich Cymraeg*

## Siop y Felin



Llyfrau • Cardiau • Casetiau
Disgiau Cryno • Fideos

Uned 3, Tŷ Codas, 54-60 Heol Merthyr,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Ffôn/Ffacs: 029 20 692999

Nadolig Llawen

---

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?

Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri, diweddaru systemau ac unedau rheoli, tystysgrifau diogelwch

---

## La Zarou
### Brothers Hair Group

*Triniwr Gwallt Merched*

59 Heol Merthyr, Eglwys Newydd, Caerdydd.
Ffôn: 029 2061 5737 / 2052 9764

*Nadolig Llawen*

---

## DISGO TEITHIOL CERI CLWB

Cerddoriaeth Gymraeg / Dwyieithog / Saesneg

Priodasau    Partion Penblwydd

Lletygarwch Corfforaethol

**Ar gael dros Gymru benbaladr**
**Ffoniwch Ceri Morgan**
**ar 07774 816209**

---

## CARDIFF MUSIC

RECORDIAU

Cymraeg, Clasurol, Offerynnol, Lleisiol

Gallwn gael unrhyw record mewn ychydig ddyddiau

31-33 Arcêd y Castell, Caerdydd.
Ffôn: 02920 229700

---

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

***Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â***

## Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,**
**CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**
E-bost: aegis-ifa@supanet.com

**AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC**
**A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL**

---

**URDD GOBAITH CYMRU**

ANGEN

**Swyddog Gweinyddol**
(£9,365 - £10,857)

**& Rheolwr Swyddfa/Gweinyddol**
(£11,724 - £13,591)

i weithio yng Nghanolfan yr Urdd,
Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd

Ystyrir oriau hyblyg neu rhannu swydd

*Os am fanylion pellach cysylltwch â:*
Sarah Morgan, Swyddfa'r Urdd, Heol Conwy,
Pontcanna, Caerdydd. Ffôn: 02920 803350

---

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 559664**

# CEGIN CYMRU

*Nawr yn agor 2 siop newydd yng Nghanol Dinas Caerdydd*

**Siop Cegin Cymru, 37 Rhodfa'r Castell, Caerdydd Rhif Ffôn: 029 20226896**



Mae'r siop yma wedi ei lleoli mewn safle hyfryd a thraddodiadol yn Rhodfa'r Castell, sydd gyferbyn â phrif fynediad Castell Caerdydd. Cynigar Rhodfa lleoliad gain i hyrwyddo basgedu bwyd ac anrhegion. Serch mai hon yw ein siop leiaf, mae'n elwa o gefnogaeth cwmseriaid y ddinas sy'n chwilio am flas Cymreig go iawn.

**Adeilad yr Hen Lyfrgell, Hayes, Caerdydd Rhif Ffôn: 08701 642122**



Mae Cegin Cymru wedi bod yn ffodus iawn i ennill tendr urddasol i reoli ardal o adwerthu o fewn adeilad ysblennydd, Canolfan y Ddinas. Mae wedi ei lleoli yn ardal brysur Hayes, tu allan i gyfadeilad Dewi Sant, ac mae ei lleoliad yn gwneud gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol y ddinas, sy'n cael eu hyrwyddo ar hyn o bryd, yn gyflawn. Mae disgwyl i nifer o gynhyrchwyr a darparwyr bwyd Cymreig drefnu amserau penodol i arddangos eu cynnyrch o fewn yr adeilad. Bydd arddangosfa barhaol o'u cynnyrch yn bodoli o fewn ein siop.

Mae gennym amrywiaeth helaeth o gynnyrch ar eich cyfer, wedi eu trefnu i nifer o fasgedi deniadol a defnyddiol. Daw'r holl gynnyrch o silffoedd llawn y pantri traddodiadol Gymreig.

Mae gan Gegin Cymru pob math o ddanteithion i dynnu dwr o'ch dannedd. Cocos a bara lawr o draethau'r gorllewin, caws fferm a chacennau cartref, gwin, seidr a dwr glân gloyw. Popeth ar gyfer te yn y parlwr gorau, swper cegin fferm neu ginio cywain gwair. Profwch y gegin Gymreig. Rwy'n siwr y cewch flas arni.

*Archebwch Bwydydd ac Hamperi Cymreig ar ein safle we www.bwyd-cymru.com*

Llenwch y ffurflen a'i drosglwyddo yn SYTH am gyfle i ennill Hamper Moethus £100.

Enw: ..........

Cyfeiriad: ..........

E-bost: ..........

Rhif Ffôn: .......... Dyddiad: ..........

planed plant

www.s4c.co.uk/planedplant

# TAITH GROTO PLANED PLANT

**Dewch i gwrdd â rhai o'ch hoff gymeriadau ar Planed Plant ynghyd â'r dyn ei hun - Siôn Corn!**



## Rhagfyr 2001

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn |
|---|---|---|---|---|---|
| **10** Maes Parcio The Green, Y Bala 2pm-7pm | **11** Maes Parcio Stryd Maengwyn, Machynlleth 2pm-7pm | **12** Maes Parcio B'wise, Aberystwyth 2pm-7pm | **13** Maes Parcio B'wise, Aberystwyth 2pm-7pm | **14** Maes Parcio Y Rookery, Llanbedr Pont Steffan 2pm-7pm | **15** Parc y Ffair, Aberteifi 10am-1pm 2pm-5pm |

| Dydd Sul | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| **16** Maes Parcio Safeway, Hwlffordd 10am-1pm 2pm-5pm | **17** Maes Parcio Yr Hen Farchnad, Caerfyrddin 2pm-7pm | **18** Maes Parcio Tesco, Trostre, Llanelli 2pm-7pm | **19** Canolfan Hamdden, Pontardawe 2pm-7pm | **20** Maes Parcio McArthur Glen, Pen-y-bont ar Ogwr 2pm-7pm | **21** Canolfan Hamdden, Parc Gelligaled, Ystrad, Rhondda 2pm-7pm |

**Mynediad £2 y plentyn**

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â GWIFREN GWYLWYR S4C 0870 600 4141

S4C